

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch Ar-lein

Mehefin 2022



# 1. Cefndir

## Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Diogelwch Ar-lein (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mawrth 2022. Fe'i noddir gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.<sup>1</sup>
2. Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben fel a ganlyn:

*"A Bill to make provision for and in connection with the regulation by OFCOM of certain internet services; for and in connection with communications offences; and for connected purposes."*

3. Cafodd y Bil ei ail ddarlleniad ar 19 Ebrill 2022 ac fe'i trosglwyddwyd wedyn i sesiwn 2022-23 yn Senedd y DU. Cafodd y Bil ei ailgyflwyno ar 11 Mai,<sup>2</sup> ac aeth i'r cyfnod pwyllgor ar 24 Mai.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
5. Ar 30 Mawrth 2022, gosododd Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (y Dirprwy Weinidog), Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron Senedd Cymru mewn perthynas â'r Bil.<sup>3</sup>
6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol adrodd ar y Memorandwm erbyn 21 Gorffennaf 2022.<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Y Bil Diogelwch Ar-lein, fel y'i cyflwynwyd (Bill 285 2021-22)

<sup>2</sup> Y Bil Diogelwch Ar-lein, fel y'i cyflwynwyd (Bill 4 2022-23)

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Diogelwch Ar-lein, Mawrth 2022

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Ar-lein, Mawrth 2022

---

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd yn eu cylch

---

**7.** Mae paragraffau 13 i 17 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru ynghylch pa rai o ddarpariaethau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef:

- cymal 175(5) – Pwerau i ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Bil (fel y'i cyflwynwyd); a
- pharagraff 10 a Rhan 2 o Atodlen 1 (fel y'i cyflwynwyd) – Gwasanaethau a ddarperir gan bersonau sy'n darparu addysg neu ofal plant.

**8.** Mae paragraff 10 o Atodlen 1 i'r Bil yn darparu ar gyfer esemptiad rhag y rhwymedigaethau o dan y Bil mewn perthynas â ddarparwyr addysg a gofal plant. Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn nodi bod yr esemptiad yn sicrhau nad yw ddarparwyr perthnasol yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth gan OFCOM a'r cyrff goruchwyllo perthnasol ledled y Deyrnas Unedig.<sup>5</sup>

**9.** Mae Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Bil yn cynnwys rhestr o'r disgrifiadau o addysg a gofal plant sy'n cael eu hesemptio, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â Chymru ym mharagraffau 31 i 37 o'r Atodlen honno.

**10.** Mae cymal 175(5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr hon pan fodlonir meini prawf penodol, sy'n cynnwys:

- a. diwygio'r disgrifiad o ddarparwr addysg neu ofal plant oherwydd bod deddfwriaeth wedi'i diwygio neu ei diddymu, sy'n effeithio ar y ffordd y mae disgrifiad wedi cael ei lunio yn Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Bil;
- b. ychwanegu disgrifiad newydd o ddarparwr addysg neu ofal plant oherwydd bod deddfiadau, canllawiau statudol neu ofynion sy'n gymwys i'r disgrifiad hwnnw o addysg a gofal plant yn golygu y byddai'n briodol i'r disgrifiad gael ei ychwanegu at Ran 2 o Atodlen 1 i'r Bil; neu
- c. dileu disgrifiad o ddarparwr addysg neu ofal plant oherwydd bod y risg o niwed i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth addysg neu ofal plant hwnnw yn cyfiawnhau dileu'r disgrifiad hwnnw o'r rhestr.

---

<sup>5</sup> Senedd y DU, [Bil Diogelwch Ar-lein 2022-23: Nodiadau Esboniadol](#), paragraff 63

---

**11.** Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn cadarnhau bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau hyn.<sup>6</sup>

### **Safbwynt Llywodraeth Cymru**

---

**12.** Ym mharagraff 15 o'r Memorandwm, mae'r Dirprwy Weinidog yn datgan bod y pŵer a roddir gan gymal 175(5) yn "bwysig o ran sicrhau bod darpariaethau'r Bil yn addas i'r dyfodol mewn perthynas â'r esemptiadau penodol hyn a sut y maent yn gymwys yng Nghymru".

**13.** Mae paragraffau 13 a 14 o'r Memorandwm yn nodi ymhellach y rhesymau y mae'r Dirprwy Weinidog o'r farn ei bod yn briodol i'r Bil gynnwys darpariaeth ddatganoledig:

*"Bydd y darpariaethau a fewnosodir gan Gymal 175(5) o'r Bil yn sicrhau bod darparwyr addysg a gofal plant yng Nghymru yn cael eu hesemptio o'r Bil er mwyn osgoi ac felly peidio â bod yn ddarostyngedig i reoleiddio ychwanegol gan OFCOM ar ben yr hyn a osodir ar hyn o bryd gan ofynion diogelu statudol a/neu gontractiol. Ar hyn o bryd, mae gofynion diogelu sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein ac amddiffyn plant rhag niwed eisoes yn rhan o waith arolygu a rheoleiddio o dan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.*

*Mae diogelwch a llesiant pobl yn gyfrifoldeb a rennir ac yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru ac ar Lywodraeth y DU. Rydym yn cydnabod mai Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i reoleiddio darparwyr rhyngrwyd yn gyson a fydd yn diogelu pobl Cymru."*

**14.** Ym mharagraff 22, daw'r Dirprwy Weinidog i'r casgliad a ganlyn:

*"...bydd y darpariaethau'n gwneud newidiadau ymarferol a phwysig i reoleiddio diogelwch ar-lein ledled y DU gan sicrhau hefyd nad yw'r rheoleiddio arfaethedig yn y Bil yn arwain at reoleiddio ychwanegol, diangen nac anghymesur i ddarparwyr addysg a gofal plant yng Nghymru. Felly, rwy'n argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad."*

---

<sup>6</sup> Senedd y DU, Bil Diogelwch Ar-lein 2022-23: Nodiadau Esboniadol, paragraff 750. Er bod paragraff 750 yn cyfeirio at gymal 170(3), mae'n amlwg y dylai gyfeirio yn lle hynny at gymal 175(5).

## 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**15.** Gwnaethom drafod y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 6 Mehefin 2022, a chytunwyd ar ein hadroddiad ar 27 Mehefin 2022.<sup>7</sup>

### Ein barn ni

**16.** Rydym yn nodi asesiad y Dirprwy Weinidog o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac rydym yn cytuno â'r asesiad hwnnw.

**17.** Rydym hefyd yn nodi barn y Dirprwy Weinidog ei bod yn briodol i'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer Cymru.

**18.** Nodwn fod y pŵer i wneud rheoliadau a ddarperir i Weinidogion Cymru yng nghymal 175(5) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Dylai'r Memorandwm fod wedi cyfeirio at y pwynt hwn ac, yn ein barn ni, byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael sylwebaeth ategol yn cyfiawnhau defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol o ystyried mai pŵer Harri VIII ydyw.<sup>8</sup>

---

<sup>7</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Mehefin 2022](#) a [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 27 Mehefin 2022](#)

<sup>8</sup> Am gyfiawnhad Llywodraeth y DU dros y math o weithdrefn, gweler Llywodraeth y DU, [Bil Diogelwch Ar-lein: Memorandwm gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Swyddfa Gartref i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio](#), Mawrth 2022, paragraffau 341–342

---